

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH A GYNHALIWDYD A'R NOS LUN 24AIN O FEHEFIN 2024 YN YR YSTAFELL GYMUNEDOL, YSGOL BRO CINMEIRCH, LLANRHAEADR AM 7.00 O'R GLOCH.

1. PRESENNOL: Y Cyngorwyr Arwel Davies (Cadeirydd). Rhian Evans, Rhian Jones, Stephen Williams, Helen Jones, Edmund Evans, Bari Evans ynghyd a'r Clerc y Cyngor.

2. YMDDIHEURIADAU: Cyngorwyr Philip Williams, Manon Davies, Ian Evans ynghyd a'r Cyngorydd Sir Ddinbych Elfed Williams.

3. DDATGAN DIDDORDEB: Dim.

4. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion blaenorol y Cyngor a gynhaliwyd a'r 20fed o Fai 2024.

5. MATERION YN CODI O'R COFNODION SYDD DDIM AR YR AGENDA ISOD.

A: Mar Cyngor Sir Ddinbych am ofyn i'r gweinyddwyr y datblygwr am roi arwydd stad Pant-y-Celyn yn Llanrhaeadr.

B. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc ofyn Cyngor Sir Ddinbych pryd fydd yna gyllid am roi llwybr troed rhwng datblygiad newydd stad Maes Cinmeirch a Hafod-y-Bryn yn Llanrhaeadr.

C. Nodwyd Cyngor Sir Ddinbych fod angen gwaith ar y materion priffyrdd canlynol ac mi fydd y gwaith yn cael eu cwblhau pryd fydd y cyllid ar gael yn y dyfodol:-

1: Hen Ficerdy, Llanrhaeadr hyd at Llewesog Isa', Prion.

2. Pen Groes hyd at Cae Glas, Prion.

3. Rhewl Valley hyd at Blas Capten, Peniel.

4. Groesffordd, Prion hyd at Bentre' Llanrhaeadr.

5. Groesffordd Pentre Farm hyd at Pont-y-Ficerdy, Llanrhaeadr.

6. Efail-y-Gro hyd at Brÿn Teg, Prion yn cynnwys problem dwr ar y ffordd.

7. Pwll dwr rhwng Bwlch a Tan Rallt, Peniel.

8. Pwll dwr rhwng Tan Garth a Rhewl Valley, Peniel.

9. Ffordd rhwng Lôn a Thÿ Cerrig, Prion.

10. Rhwng yr King's Head a'r Lodge yn Llanrhaeadr.

11. Grid ar y A525 yn Llanrhaeadr.

Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc tynnu sylw Adran Briffyrdd Cyngor Dir Ddinbych at y materion ffyrdd yn fisol hyd fydd y materion wedi eu cwblhau.

C. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc ail ofyn Rebecca Musgrave, Swyddog Cyngor Sir Ddinbych i edrych am leoliad priodasol i'r arwydd symudol cyflymdra dros dro ym Mhentre' Llanrhaeadr a hefyd gofyn am bris arwydd electronig cyflymdra parhaol ym Mhentre' Llanrhaeadr.

6. TRAFODAETH GYDA'R CYHOEDD YN BRESENNOL YN Y CYFARFOD.

Dim cyhoedd yn bresennol.

7. ARWYDDION PENTRE' PRION.

Cytunodd Y Cadeirydd i wneud ymholiadau ynglŷn ar arwydd pentre' Prion gan gontractwyr lleol.

8. AROLWG ANGHENION TAI GWLEDIG YN Y GYMUNED.

Mae'r erthygl yr arolwg erbyn hyn wedi ymddangos yn Y Bedol a'r Gadlas.

9. SESIYNAU HYFFORDDIANT UN LLAIS CYMRU.

Derbyniwyd yr aelodau trwy e-bost, rhestr o'r hyfforddiant Un Llais Cymru am y misoedd Gorffennaf, Awst a Medi 2024

10. CYLLID.

A. Derbyniwyd yr aelodau trwy e-bost, rhestr ddiweddaraf o'r derbyniadau a thaliadau banc y Cyngor am y cyfnod thwng 1af Ebrill hyd 20fed Mehefin 2024.

B. Chadarnhawyd y taliadau canlynol:-

1. Clear Insurance – Yswiriant Blynyddol y Cyngor £673.76.
2. Un Llais Cymru am gwrs hyfforddi £40.00.
3. Archwilio Cymru am archwilio'r cyfrifon y Cyngor am y flwyddyn yn diweddu 31ain Fawrth 2019 £200.00.
4. Ffi fisol Banc HSBC £5.00.
5. Cyngor Sir Ddinbych am gyfarfodydd y Cyngor am y misoedd Chwefror, Mawrth, Ebrill a Mai 2024 £80.00.
6. Un Llais Cymru am gwrs hyfforddi £40.00.
7. Un Llais Cymru am gwrs hyfforddi £40.00.
8. Cyflog y Clerc am y chwarter yn diweddu 30ain o Fehefin 2024 £502.10.
9. HM Revenue & Customs am drethi'r cyflog am y chwarter yn diweddu 30ain o Fehefin 2024 £125.40.

C. Derbyniwyd cais am gefnogaeth arian oddi wrth Glwb sêr, Prion am gefnogaeth arian tuag at gost sied yn Ysgol Pant Pastynog. Penderfynwyd am y rhodd o £1,000.00 tuag at y £1,062.00 gost yr offer ar yr amod fod y gost wedi ei chwblhau gan y Clwb Sêr.

11. CYNLLUNIO.

Nid derbyniwyd unrhyw gais cynllunio am sylwadau'r Cyngor.

12. GOHEBIAETH.

Derbyniwyd trwy e-bost llythyr oddi wrth Ken Skates AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, ynglŷn â'r rhaglen wrando ar 20 milltir yr awr.

13. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Yn ogystal ar restr y ffyrdd sydd angen sylw are item 5C uchod, penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc tynnu sylw'r canlynol hefyd at Gyngor Sir Ddinbych:-

- A: Eisiau cerbyd gwagio gwli yn y gymuned.
- B: Ffordd heibio Blaen Wern yn Prion yn warthus.
- C: Ffordd heibio Tyn-y-Ffynnon a Bryn Glas yn Saron yn warthus.
- D: Ffordd heibio Nant-y-Ci yn Saron yn warthus.

14. MATERION BRYD O DAN ADRAN 100B(4) O'R DDEDDF Y LLYWODRAETH LEOL 1972.

Dim yn codi.

15. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR NOS LUN 29AIN O ORFFENNAF 2024 YN YR YSTAFELL GYMUNEDOL, YSGOL BRO CINMEIRCH, LLANRHAADR AM 7.00 O'R GLOCH.